# Ysgol Aberconwy

# Polisi Cyflog

**DOGFEN BOLISI RHIF : 56 RHIFYN : 4**

**CYMERADWYWYD Y POLISI HWN GAN Y CORFF LLYWODRAETHU LLAWN**

**Llofnod:**

**Dyddiad: 9/10/18**

**Dyddiad adolygu: 9/10/19 Cyswllt TA: IG**

# Polisi Cyflog Ysgol Aberconwy

## Cyflwyniad

1. Mae’r polisi hwn yn nodi’r fframwaith ynghylch gwneud penderfyniadau ar gyflog staff. Cafodd ei ddatblygu i gydymffurfio â deddfwriaeth bresennol ac anghenion Dogfen Tâl ac Amodau Athrawon Ysgol (DTAAY) ac fe ymgynghorwyd ag undebau cydnabyddedig. Bydd copi o’r polisi yn cael ei anfon at yr holl staff a bydd copi o’r holl ddogfennau perthnasol ar gyflog ac amodau ar gael i staff gan yr ysgol.

2. Nod y polisi yw:
    - sicrhau bod trefniadau cyflog a staffio yn galluogi cyflwyno’r cwricwlwm a chynlluniau gwella ysgol yn bresennol ac yn y dyfodol;
    - cefnogi recriwtio a chadw staff o ansawdd uchel;
    - cydnabod a gwobrwyo staff am eu cyfraniad i wella ysgol;
    - sicrhau bod penderfyniadau cyflog yn cael eu gwneud mewn modd gwrthrychol, teg a chlir;
    - sicrhau bod yr arian sydd ar gael yn cael ei ddyrannu’n briodol.

3. **Deddfwriaeth Cydraddoldeb**

    Bydd y Corff Llywodraethol yn cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb perthnasol ac yn hyrwyddo cydraddoldeb ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol, yn arbennig parthed pob penderfyniad ar hysbysebu swyddi, penodi, dyrchafu a thalu staff, hyfforddiant a datblygu staff.

4. **Cydraddoldeb a Chyflog yn ymwneud â Pherfformiad**

    Bydd y Corff Llywodraethol yn sicrhau bod ei brosesau’n agored, clir a theg. Bydd pob penderfyniad yn cael ei gyfiawnhau’n wrthrychol. Bydd addasiadau’n cael eu gwneud i gymryd amgylchiadau arbennig i ystyriaeth, e.e. absenoldeb cyfnod mamolaeth neu salwch tymor hir. Bydd yr union addasiadau yn cael eu gwneud fesul achos, gan ddibynnu ar amgylchiadau’r athro unigol ac amgylchiadau’r ysgol.

5. **Swydd Ddisgrifiad**

    Bydd y pennaeth yn sicrhau bod pob aelod o staff yn cael swydd ddisgrifiad yn unol â’r strwythur staffio a gytunwyd gan y Corff Llywodraethol. Bydd swydd ddisgrifiadau’n nodi meysydd allweddol o gyfrifoldeb ac efallai y bydd yn cael ei adolygu o bryd i’w gilydd, mewn ymgynghoriad â’r unigolyn dan sylw, er mwyn gwneud newidiadau rhesymol yng ngoleuni anghenion yr ysgol. Oni bai am ail strwythuro staff, bydd y swydd ddisgrifiad ond yn cael ei newid trwy gytundeb.

6. **Gweld Cofnodion**

    Bydd y pennaeth yn sicrhau y bydd aelodau unigol o staff yn gallu gweld eu cofnodion cyflogaeth a bydd hyn yn cael ei wneud o fewn amser rhesymol.

## 7. Gwerthuso

Bydd y Corff Llywodraethol yn cydymffurfio â Rheoliadau Gwerthuso Athro Ysgol (Cymru) 2011 ynghylch gwerthuso penaethiaid ac athrawon trwy ddefnyddio Polisi Rheoli Perfformiad yr ysgol.

## 8. Pwyllgorau Cyflogau

8.1. Mae’r Corff Llywodraethol wedi sefydlu’r pwyllgorau canlynol sydd â grymoedd datganoledig llawn i wneud penderfyniadau ar gyflog a, heblaw cyflog y pennaeth, byddant yn cael eu cynghori gan y Pennaeth fel bo’n briodol.

- Pwyllgor Cyflog.
- Pwyllgor Apeliadau Cyflog.

Dylai pob pwyllgor gynnwys o leiaf tri llywodraethwr.

8.2. Ni fydd llywodraethwyr yn llunio barn am effeithiolrwydd staff unigol. Eu gwaith yw bodloni eu hunain bod unrhyw argymhelliad/penderfyniad wedi’i wneud ar sail tystiolaeth ac yn unol â’r Polisi, a bod y drefn gywir wedi’i dilyn.

## 9. Strwythur Staffio

Mae’r strwythur staffio yn nodi nifer ac amrediad cyflogau ar gyfer pob swydd o fewn yr ysgol ac i’w weld yn Atodiad 3.

## 10. Gwobrau Cyflog Disgresiwn

Mae’r meini prawf ar gyfer cyflog disgresiwn yn cael eu nodi yn y polisi hwn a bydd taliadau disgresiwn cyflog ychwanegol ond yn cael eu gwneud yn unol â’r meini prawf hyn.

## 11. Amserlen Gyflog

11.1. Bydd y Corff Llywodraethol yn ceisio cadw at yr amserlen ganlynol:

| Dyddiad | Allanol | Mewnol |
|---|---|---|
| Ebrill | Gosod cyllideb (ysgolion) | Cynnal adolygiad RhP ar gyfer staff cefnogi. |
| | Cyflog Chwyddiant i staff cefnogi | Penderfyniad Dilyniant Cyflog yn weithredol i staff cefnogi |
| Medi | Cyflog Chwyddiant i athrawon | Penderfyniad Dilyniant Cyflog yn weithredol i athrawon |
| Medi/Hydref | | Cynnal adolygiad RhP i athrawon |
| 31 Hydref (diwrnod olaf hanner tymor) | | Datganiad ysgrifenedig i athrawon yn nodi eu cyflog ac unrhyw fanteision ariannol y mae ganddynt hawl iddynt. |
| 31 Rhagfyr (diwrnod olaf y tymor) | | Hysbysu’r pennaeth o’r penderfyniad adolygu cyflog blynyddol |

11.2. Bydd cyflogau'r holl staff fel arfer yn cael ei benderfynu:

- yn flynyddol ar neu ar ôl: 1 Medi, ond dim hwyrach na 31 Hydref (athrawon); 1 Medi, ond dim hwyrach na 31 Rhagfyr (penaethiaid); 1 Ebrill (staff cefnogi);
- wrth benodi;
- unrhyw bryd arall fel bo'n briodol i adlewyrchu newidiadau mewn amgylchiadau neu ddisgrifiad o'r swydd.

11.3. Bydd yr holl staff yn cael eu hysbysu yn ysgrifenedig o'u penderfyniad cyflog a'r rhesymeg drosto bob blwyddyn yn ôl yr Amserlen Gyflog ac unrhyw bryd arall pan fo adolygiad cyflog yn digwydd.

12. **Diogelu**

Pan fo penderfyniad cyflog yn arwain neu'n gallu arwain at gychwyn cyfnod o ddiogelu, bydd y Corff Llywodraethol yn cydymffurfio â darpariaeth briodol y DTAAY ac yn rhoi'r hysbysiad angenrheidiol cyn gynted ag y bo'n bosibl a dim hwyrach na mis ar ôl y penderfyniad.

13. **Y Drefn**

13.1. Mae'r Corff Llywodraethol wedi dirprwyo'i rymoedd cyflog i'r pwyllgor cyflog. Rhaid i unrhyw un sy'n gweithio yn yr ysgol, oni bai am y pennaeth, adael y cyfarfod pan fo gwerthusiad neu gyflog aelod arall o staff, yn cael ei ystyried. Rhaid i unigolyn perthnasol adael pan fo gwrthdaro diddordeb neu unrhyw amheuaeth ynghylch ei allu i weithredu'n ddiduedd. Ni ddylai'r pennaeth fod yn bresennol pan fo ei gyflog yn cael ei ystyried a bod penderfyniadau cyflog yn cael eu gwneud ynghylch ei gyflog.

13.2. Nid oes gan unrhyw aelod o'r Corff Llywodraethol a gyflogir yn yr ysgol hawl i fod yn aelod o'r pwyllgor hwn.

13.3. Gall y Pwyllgor Cyflog wahodd cynrychiolydd o'r ALl i fynychu a chynnig cyngor ar benderfynu cyflog y pennaeth. Ni fydd y pennaeth yn bresennol pan fydd cyngor yn cael ei roi a bydd cynrychiolydd yr ALl yn gadael y cyfarfod pan fydd y penderfyniad yn cael ei wneud.

13.4. Bydd telerau cyfeirio'r Pwyllgor Cyflog yn cael eu penderfynu o bryd i'w gilydd gan y Corff Llywodraethol. Y telerau cyfeirio presennol yw:

- cyflawni nod y polisi cyflog ysgol gyfan mewn modd teg a chytbwys;
- defnyddio'r meini prawf a osodwyd gan y polisi cyflog ysgol gyfan wrth benderfynu cyflog pob aelod o staff yn yr adolygiad blynyddol;
- cadw pob oblygiad statudol a chytundebol;
- cofnodi'n glir y rhesymau am bob penderfyniad a rhoi adroddiad o'r ffeithiau hyn yn y cyfarfod nesaf o'r Corff Llywodraethol llawn;
- argymell i'r Corff Llywodraethol y gyllideb flynyddol sydd ei angen ar gyfer cyflog, gan gadw mewn cof yr angen i sicrhau caffaelrwydd arian i gefnogi gweithredu unrhyw ddisgresiwn cyflog;
- cadw ar y blaen gydag unrhyw ddatblygiadau a hysbysu'r Corff Llywodraethol pan fo angen adolygu polisi cyflog yr ysgol;

- sicrhau bod y Corff Llywodraethol yn cydymffurfio â Rheoliadau Gwerthuso Llywodraeth Cymru 2011.

13.5. Bydd adroddiad y pwyllgor cyflog yn cael ei roi yn rhan gyfrinachol agenda'r Corff Llywodraethol a bydd un ai'n cael ei dderbyn neu ei gyfeirio'n ôl. Bydd y cyfeirio'n ôl ond yn cael ei wneud os bydd y pwyllgor cyflog wedi mynd y tu hwnt i'w rymoedd o dan y polisi.

13.6. **Y Drefn Apêl**

Mae gan y Corff Llywodraethol drefn apêl ynghylch cyflog yn unol â darpariaethau'r DTAAY. Mae wedi'i osod fel atodiad i'r polisi cyflog hwn (Atodiad 1).

14. **Cyflog Athrawon – Amrediad Cyflog**

**14.1.** Bydd **Athrawon wedi cymhwyso** yn cael eu talu ar y Prif Amrediad Cyflog neu'r Amrediad Cyflog Uwch.

Mae'r amrediad cyflog yn yr ysgol hon wedi'i rannu'n gamau dilyniant fel a ganlyn:

| **Prif Amrediad Cyflog** | |
|---|---|
| Isafswm: Pwynt 1 | £23,720 |
| Pwynt 2 | £25,594 |
| Pwynt 3 | £27,652 |
| Pwynt 4 | £29,780 |
| Pwynt 5 | £32,126 |
| Uchafswm: Pwynt 6 | £35,008 |
| **Amrediad Cyflog Uwch** | |
| Isafswm: Pwynt U1 | £36,646 |
| Pwynt U2 | £38,004 |
| Uchafswm: Pwynt U3 | £39,406 |

**14.2.** Bydd **Athrawon heb gymhwyso** fel arfer yn cael eu talu ar yr Amrediad Cyflog Heb Gymhwyso.

Mae'r Amrediad Cyflog i athrawon heb gymhwyso yn yr ysgol hon wedi'i rannu'n gamau dilyniant fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Isafswm: Pwynt 1 | £17,208 |
| Pwynt 2 | £19,210 |
| Pwynt 3 | £21,210 |
| Pwynt 4 | £23,212 |
| Pwynt 5 | £25,215 |
| Uchafswm: Pwynt 6 | £27,216 |

**14.3. Swyddi Athrawon Ymarferwyr Blaenllaw**

Mae'r Corff Llywodraethol yn nodi'r raddfa gyflog ganlynol ar gyfer swyddi athrawon Ymarferwyr Blaenllaw sy'n cael eu talu ar yr Amrediad Cyflog Ymarferydd Blaenllaw a

| | |
|---|---|
| phe bai angen yn dyrannu amrediad 3 pwynt priodol gan ystyried strwythur cyflog yr ysgol a pharagraff 15.2 isod. | |
| Graddfa Gyflog Ymarferwyr Blaenllaw** | |
| Isafswm | £40,162 |
| Uchafswm | £61,055 |
| ****** (Gwerthoedd cyflog isafswm ac uchafswm fel y nodir yn y DTAAY 2018). Gellir sefydlu swyddi o'r fath i athrawon a'u prif bwrpas yw modelu ac arwain gwella sgiliau addysgu, pan fo'r dyletswyddau hynny y tu hwnt i feini prawf strwythur tâl CAD. | |

**14.4 Grŵp Arweinyddiaeth** - mewn perthynas ag amrediad cyflog isafswm/ uchafswm i aelodau o'r Grŵp Arweinyddiaeth fel y nodir yn y DTAAY, bydd y Corff Llywodraethol yn rhoi pwyntiau cyfeirio at greu graddfa 43 pwynt fel yr atodir yn Atodiad 6 o'r polisi cyflog hwn.

**14.4.1 Dirprwyon a Phenaethiaid Cynorthwyol** - byddant yn cael eu talu o fewn amrediad 5 pwynt yr Amrediad Cyflog Arweinyddiaeth a gyfeirir ati uchod a benderfynwyd yn unol â'r meini prawf a nodwyd yn y DTAAY a phara 23 isod. Os bydd y tîm arweinyddiaeth wedi'i strwythuro heb Ddirprwy Bennaeth, bydd pwynt ychwanegol ar y raddfa arweinyddiaeth yn cael ei roi i Benaethiaid Cynorthwyol dynodedig i ddirprwyo ar ran y Pennaeth yn eu habsenoldeb.

**14.4.2 Y Pennaeth** - bydd yn cael ei dalu o fewn amrediad 7 pwynt a benderfynwyd yn unol â'r meini prawf a nodir yn y DTAAY gan gymryd i ystyriaeth Grŵp Pennaeth yr ysgol ac unrhyw amgylchiadau penodol/eithriadol sy'n benodol i'r rôl/unigolyn. (Mewn perthynas â phara 21 isod).

**14.4.3** Mae'r Corff Llywodraethol wedi sefydlu'r amrediadau cyflog canlynol ar gyfer y Grŵp Arweinyddiaeth:-

Amrediad Cyflog y Pennaeth = L 29-35

Amrediad Cyflog y Dirprwy Bennaeth = L 16-20

Amrediad Cyflog y Pennaeth Cynorthwyol = L 10-L14

**14.5** Cymerwyd ystyriaeth o godiad cyflog 2018 fel a nodir yn y DTAAY. Mae'r ddogfen hon yn adlewyrchu'r newidiadau hyn i'r graddfeydd tâl. Bydd gweithredu penderfyniadau codiad cyflog yn cael eu hamlinellu yn y polisi hwn.

## 15. CYFLOG WRTH BENODI

### 15.1 ATHRAWON DOSBARTH

15.1.1 Bydd y Corff Llywodraethol yn penderfynu amrediad cyflog y swydd wag cyn ei hysbysebu. Wrth benodi, bydd yn penderfynu'r cyflog cychwynnol o fewn yr amrediad sydd i'w gynnig i'r ymgeisydd llwyddiannus.

15.1.2 Wrth wneud penderfyniadau o'r fath, bydd y Corff Llywodraethol yn defnyddio'r egwyddorion canlynol:

15.1.3 Mae'r Corff Llywodraethol yn derbyn na fydd yn cyfyngu'r amrediad cyflog a hysbysebwyd neu gyflog cychwynnol a'r gobeithion o ddatblygiad cyflog sydd ar gael ar gyfer swyddi athrawon dosbarth, heblaw isafswm y Prif Amrediad Cyflog ac uchafswm yr Amrediad Cyflog Uwch.

Bydd y Corff Llywodraethol yn cefnogi'r egwyddor o gyflog symudol wrth wneud penderfyniadau cyflog ar gyfer yr holl staff newydd a benodir.

15.1.4 Wrth benderfynu cyflog cychwynnol athro dosbarth sy'n cychwyn ei **swydd gyntaf** fel athro dosbarth wedi cymhwyso mewn ysgol a gynhelir, bydd y Corff Llywodraethol yn talu'r athro ar y Brif Amrediad Cyflog ac fel arfer yn rhoi pwyntiau graddfa cyflog, fel isafswm, ar y sail ganlynol:

- ➢ Un pwynt ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth boddhaol (fel athro wedi cymhwyso) mewn academi, technoleg dinas neu ysgol annibynnol;
- ➢ Un pwynt ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth boddhaol (fel athro wedi cymhwyso) mewn addysg uwch neu addysg bellach gan gynnwys colegau chweched dosbarth, neu mewn gwledydd y tu allan i Loegr a Chymru mewn ysgol yn y sector a gynhelir yn y wlad dan sylw;
- ➢ Un pwynt am bob tair blynedd o brofiad anaddysgol a dreuliwyd yn gweithio mewn maes perthnasol, gan gynnwys hyfforddiant diwydiannol neu fasnachol, amser a dreuliwyd yn gweithio mewn swydd sy'n berthnasol i waith yr athro yn yr ysgol, a phrofiad gyda phlant/pobl ifanc;
- ➢ Ym mhob amgylchiad arall, bydd athrawon newydd gymhwyso yn eu blwyddyn gyntaf yn cael eu talu ar isafswm y brif raddfa gyflog.

15.1.5 Wrth benderfynu cyflog cychwynnol athro dosbarth sydd **wedi gweithio'n flaenorol** mewn ysgol ALl a gynhelir neu academi yn Lloegr a Chymru, bydd y Corff Llywodraethol yn talu'r athro ar y Brif Amrediad Cyflog neu Amrediad Cyflog Uwch ar bwynt cyflog sydd o leiaf yn cynnal hawl cyflog blaenorol yr athro ac unrhyw ddatblygiad cyflog y byddent wedi'i gael pe baent wedi aros yn eu swydd flaenorol.

15.1.6 Bydd y Corff Llywodraethol yn talu athrawon dosbarth sy'n "athrawon ôl drothwy" fel y diffiniwyd yn y DTAAY 2012 ar yr Amrediad Cyflog Uwch.

## 15.2 YMARFERWYR BLAENLLAW – CYFLOG WRTH BENODI

15.2.1 Gall swyddi o'r fath gael eu sefydlu ar gyfer athrawon a'u prif bwrpas yw modelu ac arwain gwella sgiliau addysgu, pan fo'r dyletswyddau hynny y tu hwnt i feini prawf strwythur cyflog CAD.

15.2.2 Wrth osod yr amrediad pwynt unigol ar gyfer unrhyw athro ar yr amrediad cyflog ar gyfer ymarferydd blaenllaw, bydd y Corff Llywodraethol yn ystyried:

- pwysau cyfrifoldebau'r swydd;
- yr angen i sicrhau cydraddoldeb cyflog pan fo swyddi'r un mor feichus, a'r
- angen i ystyried cyflog teg rhwng swyddi o wahanol lefelau o gyfrifoldeb.

15.2.3 Polisi'r Corff Llywodraethol yw penodi unrhyw athro ymarferydd blaenllaw newydd ar bwynt isaf yr amrediad cyflog a gytunwyd.

## 15.3 ATHRAWON HEB GYMHWYSO – CYFLOG WRTH BENODI

Bydd y pwyllgor cyflog yn talu unrhyw athro heb gymhwyso yn unol â pharagraff 14 uchod. Bydd y pwyllgor cyflog yn penderfynu ymhle y bydd athro heb gymhwyso a benodwyd yn cael ei roi ar y raddfa, gan ystyried unrhyw gymwysterau neu brofiad sydd ganddo/ganddi, a ystyrir o werth. Bydd y pwyllgor cyflog yn ystyried a yw'n dymuno talu lwfans ychwanegol, yn unol â'r canllawiau a gynhwyswyd yn y DTAAY.

16. **DATBLYGIAD CYFLOG – DATGANIAD CYFFREDINOL**

16.1 Mae'r trefniadau ar gyfer gwerthusiad athro wedi'u nodi ym mholisi rheoli perfformiad/gwerthuso'r ysgol.

16.2 Bydd penderfyniadau ynghylch datblygiad cyflog yn cael eu gwneud gan gyfeirio at adroddiadau rheoli perfformiad/gwerthuso'r athro a'r argymhellion cyflog maent yn eu cynnwys. Yn achos ANG, bydd penderfyniadau cyflog yn cael eu gwneud trwy'r broses anwytho statudol.

16.3 I fod yn deg a thryloyw, bydd asesiadau o berfformiad wedi'i gwreiddio'n gadarn mewn tystiolaeth. Bydd tegwch yn cael ei sicrhau trwy gadw llygad blynyddol ar gymhwyso'r polisi cyflog a phenderfyniadau cyflog.

16.4 Y dystiolaeth a ddefnyddir fydd yr hyn sydd ar gael trwy'r broses rheoli perfformiad/gwerthuso'n unig.

16.5 Pan fo athrawon wedi ymuno â'r ysgol yn ystod cylch rheoli perfformiad/gwerthuso, bydd y Corff Llywodraethol, ble bo'n angenrheidiol, yn ceisio tystiolaeth gan yr ysgol flaenorol i gynorthwyo gyda phenderfyniadau cyflog a dim ond pan fydd angen y bydd yn ceisio tystiolaeth gan yr athrawon eu hunain.

16.6 Bydd adroddiadau rheoli perfformiad/gwerthuso athrawon yn cynnwys argymhellion cyflog. Bydd penderfyniadau terfynol ynghylch derbyn argymhelliad cyflog yn cael eu gwneud gan bwyllgor cyflog y Corff Llywodraethol, gan ystyried yr adroddiad rheoli perfformiad/gwerthuso a chyngor gan y Pennaeth.

16.7 Bydd y Corff Llywodraethol yn sicrhau bod arian priodol yn cael ei ddyrannu ar gyfer datblygiad cyflog i'r holl athrawon cymwys.

16.8 Gall pob athro ddisgwyl datblygiad i frig eu hamrediad cyflog o ganlyniad i adolygiadau rheoli perfformiad/gwerthusiad llwyddiannus yn unol â darpariaethau DTAAY.

16.9 **Datblygiad cyflog – Athrawon dosbarth ar y Prif Amrediad Cyflog**

16.9.1 Bydd athrawon dosbarth yn cael datblygiad cyflog ar y Prif Amrediad Cyflog ar ôl pob adolygiad rheoli perfformiad/gwerthusiad llwyddiannus.

16.9.2 Bydd adolygiadau'n cael eu hystyried yn llwyddiannus oni bai y codwyd pryderon arwyddocaol ar bapur am safonau perfformiad gyda'r athro yn ystod y cylch rheoli perfformiad/gwerthuso blynyddol ac na fu digon o welliant erbyn diwedd y broses, er gwaethaf cefnogaeth a ddarparwyd gan yr ysgol.

16.9.3 Bydd athrawon dosbarth sydd yn eu blwyddyn anwytho yn cael datblygiad cyflog ar ôl cwblhau'r cyfnod anwytho yn llwyddiannus.

## 17. SYMUD I'R AMREDIAD CYFLOG UWCH

### 17.1 Cais a Thystiolaeth

17.1.1 Gall unrhyw athro wedi cymhwyso ymgeisio i gael ei dalu ar yr Amrediad Cyflog Uwch a rhaid i geisiadau o'r fath gael eu hasesu yn unol â'r polisi hwn.

17.1.2 Cyfrifoldeb yr athro yw penderfynu a ydynt yn dymuno gwneud cais i gael eu talu ar yr Amrediad Cyflog Uwch.

17.1.3 Bydd gan athrawon hawl i ddatblygiad i'r Amrediad Cyflog Uwch ar ôl cyrraedd a gweithio ar uchafbwynt y Prif Amrediad Cyflog.

17.1.4 Ar ddechrau pob blwyddyn ysgol bydd y Pennaeth yn hysbysu pob athro sydd ar bwynt 5 a'r rhai sydd wedi cyrraedd pwynt uchaf y Prif Amrediad Cyflog o'u hawl i wneud cais am asesiad a'r meini prawf a nodir yn 17.2.2 isod.

17.1.5 Gall ceisiadau gael eu gwneud unwaith y flwyddyn fel y nodir yn 17.1.6.

17.1.6 Pan fo athrawon yn dymuno cael eu hasesu, dylent hysbysu eu gwerthuswr yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen gais a dylai'r athro ei chyflwyno i'r gwerthuswr ar ôl adolygiad rheoli perfformiad. (Atodiad 4).

17.1.7 Bydd cais yr athro yn cael ei roi ynghlwm wrth eu datganiad rheoli perfformiad/ datganiad cynllunio gwerthuso.

17.1.8 Bydd barn yn cael ei seilio ar dystiolaeth o reoli perfformiad ac unrhyw dystiolaeth berthnasol ychwanegol mae'r athro yn dymuno ei ddarparu.

17.1.9 Os yw athro yn cael ei gyflogi gan ysgol(ion) arall ar yr un pryd, mae'n rhaid iddynt gyflwyno ceisiadau ar wahân os ydynt yn dymuno cael eu talu ar yr Amrediad Cyflog Uwch yn yr ysgol neu'r ysgolion hynny. Ni fydd yr ysgol hon yn cael ei rhwymo gan y penderfyniad cyflog a wneir gan yr ysgol arall.

### 17.2 Yr Asesiad

17.2.1 Bydd cais gan athro wedi cymhwyso yn llwyddiannus pan fo'r Corff Llywodraethol yn fodlon bod:

- yr athro yn hynod fedrus ymhob elfen o'r safonau perthnasol. Y safonau proffesiynol sy'n berthnasol i athrawon yng Nghymru yw Safonau Ymarferwyr Addysg fel y dehonglwyd yn y Safonau Diwygiedig i Ymarferwyr Addysg yng Nghymru 2011. Rhaid gweld a defnyddio'r rhain yng nghyd-destun Dogfen Ganllaw Llywodraeth Cymru 073/2012 Rheoli Perfformiad i Athrawon.
- cyraeddiadau a chyfraniad yr athro i'r ysgol yn sylweddol a chyson.

17.2.2 I bwrpas y polisi cyflog hwn, bydd y Corff Llywodraethol yn fodlon bod athro wedi cyfarfod disgwyliadau datblygiad i'r Amrediad Cyflog Uwch ble mae disgwyliadau

meini prawf Amrediad Cyflog Uwch (gweler **Atodiad 2**) wedi'u bodloni fel y profwyd gan ddau adolygiad rheoli perfformiad/gwerthuso dilynol llwyddiannus.

17.2.3 Wrth wneud penderfyniad, bydd pwyllgor cyflog y Corff Llywodraethol yn ystyried y ddau adolygiad rheoli perfformiad/gwerthuso diweddaraf. Bydd adolygiadau yn cael eu hystyried yn llwyddiannus oni bai y codwyd pryderon arwyddocaol ynghylch safonau yn ysgrifenedig gyda'r athro yn ystod y cylch adolygiad rheoli perfformiad/gwerthuso ac na fu digon o welliant erbyn diwedd y broses, er gwaethaf cefnogaeth a ddarparwyd gan yr ysgol.

17.3 **Prosesau a threfnau**

17.3.1 Bydd yr asesiad yn cael ei wneud o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl cael y cais neu ar ddiwedd y broses rheoli perfformiad / gwerthuso, pa un bynnag yw'r hwyraf.

17.3.2 Os yn llwyddiannus, bydd ymgeiswyr yn symud i'r Amrediad Cyflog Uwch o'r 1 Medi ac yn cael eu rhoi ar bwynt isaf y raddfa gyflog. h.y. y Medi sy'n dilyn yn syth wedi'r cyfnod dwy flynedd o adolygiad gwerthuso llwyddiannus.

17.3.3 Os yn aflwyddiannus, bydd y pennaeth yn darparu adborth cyn gynted ag y bo modd, ac o leiaf o fewn 5 diwrnod gwaith o wneud y penderfyniad; a bydd yn cynnwys y rheswm am y penderfyniad a'r trefniadau apêl sydd ar gael i'r athro. Bydd unrhyw apêl yn erbyn symud athro ar yr Amrediad Cyflog Uwch yn cael ei glywed dan drefniadau apeliadau'r ysgol.

18. **Datblygiad Cyflog – Athrawon ar yr Amrediad Cyflog Uwch**

18.1 Bydd athrawon dosbarth yn cael datblygiad cyflog ar yr Amrediad Cyflog Uwch ar ôl <u>dau</u> adolygiad rheoli perfformiad/gwerthusiad llwyddiannus a fydd yn cynnwys cadarnhad bod yr athro wedi cynnal y meini prawf a osodwyd ym mharagraff 17.2 uchod.

18.2 Bydd adolygiadau yn cael eu hystyried yn llwyddiannus oni bai y codwyd pryderon arwyddocaol ynghylch safonau gyda'r athro yn ysgrifenedig yn ystod y cylch adolygu rheoli perfformiad/gwerthuso ac ni fu digon o welliant erbyn diwedd y broses, er gwaethaf cefnogaeth a ddarparwyd gan yr ysgol.

19. **Datblygiad Cyflog - Rôl Ymarferydd Blaenllaw**

Bydd athrawon ymarferwyr blaenllaw yn cael datblygiad cyflog ar eu graddfeydd cyflog ar ôl pob adolygiad rheoli perfformiad/gwerthusiad llwyddiannus. Bydd adolygiadau yn cael eu hystyried yn llwyddiannus oni bai y codwyd pryderon arwyddocaol ynghylch safonau yn ysgrifenedig gyda'r athro yn ystod y cylch adolygu rheoli perfformiad/gwerthuso blynyddol ac ni fu digon o welliant erbyn diwedd y broses, er gwaethaf cefnogaeth a ddarparwyd gan yr ysgol.

20. **Datblygiad Cyflog – Athro Dosbarth heb gymhwyso**

Bydd athrawon dosbarth heb gymhwyso yn cael datblygiad cyflog ar eu graddfeydd cyflog ar ôl pob adolygiad rheoli perfformiad/gwerthusiad llwyddiannus Bydd adolygiadau yn cael eu hystyried yn llwyddiannus oni bai y codwyd pryderon arwyddocaol ynghylch safonau perfformiad yn ysgrifenedig gyda'r athro yn ystod y

cylch adolygu rheoli perfformiad/gwerthuso ac ni fu digon o welliant erbyn diwedd y broses, er gwaethaf cefnogaeth a ddarparwyd gan yr ysgol.

21. **Grŵp Arweinyddiaeth**

21(a) **Cyflog Pennaeth wrth Benodi**

Bydd y Corff Llywodraethol yn penderfynu amrediad cyflog y pennaeth yn unol â darpariaeth paragraff 14.4 o'r polisi cyflog hwn a'r darpariaethau penodol a nodir yn DTAAY sy'n berthnasol i Gyflog Grŵp Arweinyddiaeth. Hefyd, bydd y Corff Llywodraethol yn gweithredu'r arweiniad a welir yn Adran 3 o'r DTAAY a'r drefn o osod cyflog arweinydd ysgol a welir yn nogfen arweiniol y DFE o dan y pennawd "*Implementing Your Schools Approach to Pay*" dyddiedig Medi 2017.

21 (b) **Penderfyniad o daliadau dros dro i'r Pennaeth**

Bydd unrhyw daliadau i'r pennaeth am ddyletswyddau a chyfrifoldebau dros dro sy'n ychwanegol i'r swydd ac sydd heb gael eu hystyried yn flaenorol wrth benderfynu'r raddfa gyflog yn cael eu pennu yn unol â darpariaeth DTAAY.

22. **Adolygiad o Amrediad Cyflog Penaethiaid a Dilyniant Cyflog**

22.1 Gall yr ysgol adolygu amrediad cyflog y pennaeth pan ystyrir hynny'n briodol er mwyn cynnal cysondeb gyda threfniadau cyflog arweinyddiaeth o fewn yr ysgol neu pan fo cyfrifoldebau'r pennaeth wedi newid yn sylweddol. Mewn achosion o'r fath, bydd darpariaeth para 21(a) uchod yn gymwys.

22.2 Mewn perthynas â dilyniant cyflog, bydd yr ysgol yn ystyried yn flynyddol i godi cyflog y pennaeth neu beidio, a phan benderfynir gwneud hynny, i ba bwynt cyflog o fewn yr amrediad cyflog y dylid gwneud hynny.

22.3 Penderfynir dilyniant cyflog yn unol â darpariaeth y DTAAY a bydd y penderfyniad i ganiatáu dilyniant neu beidio yn berthnasol i berfformiad y pennaeth yn unol â threfniadau gwerthuso'r ysgol a darpariaethau Rheoliadau Gwerthuso.

22.4 Bydd y pwyllgor cyflog yn rhoi ystyriaeth i'r argymhelliad cyflog a nodir yn adroddiad gwerthuso'r pennaeth gyda dilyniant cyflog yn amodol i'r pennaeth fod wedi perfformio i ansawdd uchel a chyson mewn perthynas ag arweinyddiaeth, rheolaeth a gwelliant disgyblion.

Bydd y trefniadau adolygu a gwerthuso yn rhoi ystyriaeth i safonau proffesiynol sy'n berthnasol i benaethiaid yng Nghymru yn cynnwys Safonau Athrawon wrth eu Gwaith a Safonau Arweinyddiaeth fel y diffiniwyd yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru rhif 020/2011 y mae'n rhaid edrych arno a'i gymhwyso yng ngyd-destun Dogfen Ganllaw Llywodraeth Cymru Rhif 074/2012 Rheoli Perfformiad i Benaethiad.

23**.** **Dirprwy Benaethiaid/Penaethiaid Cynorthwyol – Cyflog wrth Benodi**

23.1 Bydd y Corff Llywodraethol, pan fo angen gwneud penodiad newydd, yn penderfynu'r amrediad cyflog i'w hysbysebu a chytuno ar gyflog wrth benodi fel a ganlyn:-

23.1.1 Yn achos swydd dirprwy bennaeth, mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethol gael ei fodloni hefyd bod y cyfrifoldeb arwyddocaol yn cynnwys pwysau swydd sy'n fwy na'r hyn a ddisgwylir gan bennaeth cynorthwyol a gyflogir gan yr un ysgol, gan gynnwys cyfrifoldeb am gyflawni holl gyfrifoldebau'r pennaeth yn ystod absenoldeb y pennaeth.

23.1.2 Bydd y Corff Llywodraethol yn penderfynu amrediad cyflog y dirprwy/pennaeth cynorthwyol yn unol â darpariaeth paragraff 14.4 y polisi hwn a'r darpariaethau penodol a nodir yn DTAAY mewn perthynas â Chyflog Grwp Arweinyddiaeth. Hefyd, bydd y Corff Llywodraethol yn gweithredu'r canllaw a nodir yn Adran 3 y DTAAY a'r dull o osod cyflog arweinwyr ysgol fel y nodir yn nogfen ganllaw'r DFE o'r enw "*Implementing Your Schools Approach to Pay*" dyddiedig Medi 2017.

23.1.3 Yn arferol, nid fydd amrediad cyflog y dirprwy neu'r pennaeth cynorthwyol yn croesi'r amrediad cyflog a gytunwyd ar gyfer y pennaeth.

## 24. Adolygiad o Amrediad Cyflog Dirprwy/Pennaeth Cynorthwyol a Dilyniant Cyflog

24.1 Gall yr ysgol adolygu amrediad cyflog y dirprwy/pennaeth cynorthwyol pan ystyrir hynny'n briodol er mwyn cynnal cysondeb gyda threfniadau cyflog arweinyddiaeth o fewn yr ysgol neu pan fo cyfrifoldebau'r dirprwy/pennaeth cynorthwyol wedi newid yn sylweddol. Mewn achosion o'r fath, bydd darpariaeth para 23.1.2 uchod yn gymwys.

24.2 Mewn perthynas â dilyniant cyflog, bydd yr ysgol yn ystyried yn flynyddol i godi cyflog y dirprwy/pennaeth cynorthwyol neu beidio, a phan benderfynir gwneud hynny, i ba bwynt cyflog o fewn yr amrediad cyflog y dylid gwneud hynny.

24.3 Penderfynir dilyniant cyflog yn unol â darpariaeth y DTAAY a bydd y penderfyniad i ganiatau dilyniant neu beidio yn berthnasol i berfformiad y dirprwy/pennaeth cynorthwyol yn unol â threfniadau gwerthuso'r ysgol a darpariaethau Rheoliadau Gwerthuso.

24.4 Bydd y pwyllgor cyflog yn rhoi ystyriaeth i'r argymhelliad cyflog a nodir yn adroddiad gwerthuso'r dirprwy/pennaeth cynorthwyol gyda dilyniant cyflog yn amodol i'r dirprwy/pennaeth cynorthwyol fod wedi perfformio ansawdd uchel a chyson mewn perthynas ag arweinyddiaeth, rheolaeth a gwelliant disgyblion.

Bydd y trefniadau adolygu a gwerthuso yn rhoi ystyriaeth i safonau proffesiynol sy'n berthnasol i ddirprwy/benaethiaid cynorthwyol yng Nghymru yn cynnwys Safonau Athrawon wrth eu Gwaith a Safonau Arweinyddiaeth fel y diffiniwyd yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru rhif 020/2011 y mae'n rhaid edrych arno a'i gymhwyso yng ngyd-destun Dogfen Ganllaw Llywodraeth Cymru Rhif 073/2012 Rheoli Perfformiad i Athrawon.

## 25. Lwfansau Gweithredol

25.1 Pan fo angen i athro weithredu fel pennaeth, dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol am gyfnod o bedair wythnos neu fwy, bydd ef/hi yn cael lwfans ychwanegol er mwyn sicrhau nad yw’r cyfanswm cyflog yn is nag isafswm yr amrediad cyflog perthnasol a hynny am y cyfnod y telir y lwfans ychwanegol. Bydd cyfnodau llai na 4 wythnos ar ddisgresiwn y Llywodraethwyr.

25.2 Bydd y cyflog yn cael ei ôl ddyddio i pan gychwynnwyd y dyletswyddau. Ni fydd pwysau, uniongyrchol neu anuniongyrchol yn cael ei roi ar athrawon i ymgymryd â dyletswyddau uwch pan fo hynny’n wirfoddol ar eu rhan.

26. **Taliadau Cyfrifoldebau Addysgu a Dysgu (CAD)**

Bydd y pennaeth yn argymell strwythur addysgu yn flynyddol i’r Corff Llywodraethol a strwythur staff addysgu ar gyfer yr ysgol sy’n:

- cymryd i ystyriaeth unrhyw gyfyngiadau ariannol a benderfynwyd gan y Corff Llywodraethol;
- nodi swyddi y bydd lwfansau CAD yn cael eu dyrannu;
- nodi lefel lwfans CAD i’w ddyrannu i bob swydd, gyda thri lefel CAD: CAD 1, CAD 2 and CAD 3.

27. **Taliadau CAD 1 a CAD 2**

27.1. Gall y Corff Llywodraethol roi lwfans CAD 1 a CAD 2 i athro dosbarth am gymryd cyfrifoldeb ychwanegol parhaus yng nghyd-destun eu strwythur staffio er mwyn sicrhau parhau i gyflwyno addysgu a dysgu o ansawdd uchel y mae’r athro yn atebol amdano.

27.2. Gall y wobr fod tra mae’r athro yn aros yn yr un swydd neu mewn swydd arall yn ystod absenoldeb dros dro deiliad y swydd, e.e. yn ystod cyfnod mamolaeth neu i ffwrdd ar secondiad. Ni fydd athrawon sy’n cael CAD mewn achosion o’r fath yn amodol i ddiogelu pan fydd CAD yn dod i ben.

27.3. Cyn rhoi CAD 1 a CAD 2 rhaid i’r Corff Llywodraethol gael ei fodloni bod cyfrifoldebau’r athro yn cynnwys cyfrifoldeb arwyddocaol nad oes ei angen gan yr holl athrawon dosbarth ac:

a) yn canolbwyntio ar addysgu a dysgu;
b) angen sgiliau a barn broffesiynol yr athro;
c) angen i’r athro arwain, rheoli a datblygu pwnc neu faes cwricwlwm, neu arwain a rheoli datblygiad disgyblion ar draws y cwricwlwm;
ch) yn cael effaith ar gynnydd addysgol disgyblion heblaw dosbarthiadau'r athro neu grwpiau neilltuol o ddisgyblion; ac
d) yn cynnwys arwain, datblygu a gwella ymarfer addysgu staff eraill.

27.4. Bydd y Corff Llywodraethol yn penderfynu rhoi’r CAD cyntaf (“CAD 1”) neu ail CAD (“CAD 2”) a’i werth.

27.5. Hefyd, cyn rhoi CAD 1, mae’n rhaid i’r Corff Llywodraethol fod yn fodlon bod y cyfrifoldeb arwyddocaol yn cynnwys cyfrifoldeb rheoli llinell am nifer sylweddol o bobl.

27.6. Bydd y Corff Llywodraethol yn penderfynu lefelau a gwerthoedd taliadau CAD a gysylltwyd â swyddi unigol, fel bo'n briodol i ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r swyddi hyn gan ddefnyddio'r fframwaith canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| CAD 2a | £2,721 | CAD 1a | £7,853 |
| CAD 2b | £4,529 | CAD 1b | £9,662 |
| CAD2c | £6,646 | CAD 1c | £11,473 |
| | | CAD 1d | £13,288 |

27.7. Mae'r Corff Llywodraethol yn ymgymryd i gynyddu'r gwerthoedd hyn yn y dyfodol yn unol ag anghenion y DTAAY.

27.8. Bydd diogelu taliadau CAD 1 a CAD 2 yn cael ei gymhwyso boed o ganlyniad i newid yn y polisi cyflog neu strwythur staffio'r ysgol, un ai:

(a) nad yw cyfrifoldebau'r athro bellach i gynnwys y cyfrifoldeb arwyddocaol y rhoddwyd CAD ar ei gyfer; neu
(b) bod y cyfrifoldeb arwyddocaol (boed hyn wedi newid neu beidio) yn teilyngu, yn unol â'r polisi cyflog a'r strwythur staffio, CAD o werth blynyddol is ("y tâl newydd"),

27.9. Mewn achosion o'r fath bydd y Corff Llywodraethol yn talu'r swm diogelu yn unol â darpariaeth y DTAAY.

## 28. Taliadau CAD 3

28.1. Gall y Corff Llywodraethol roi CAD 3 o rhwng **£540** a **£2,683** ar gyfer cynlluniau gwella ysgol cyfnod gosodedig, neu gyfrifoldebau ar ben ei hunain sy'n cael eu harwain yn allanol yn ôl darpariaeth y DTAAY. Bydd y Corff Llywodraethol yn nodi mewn ysgrifen i'r athro hyd y cyfnod gosodedig, lefel y gefnogaeth a swm y wobr a fydd yn cael ei dalu'n fisol. Ni fydd diogelu yn berthnasol pan roddir CAD 3. Er na all athro ddal CAD1 a CAD2 yn gydamserol, gall athro sy'n cael CAD1 neu CAD2 ddal CAD3 yn gydamserol.

28.2. Pan fo Corff Llywodraethol yn dymuno gwneud taliad CAD 3, bydd yn bodloni ei hun bod y cyfrifoldebau'n cyfarfod (a) (b) a (ch) o'r meini prawf CAD (para 27.3). Bydd recriwtio arferol yn digwydd yn ystod y broses dethol i benodi CAD 3 a bydd swyddi o'r fath yn amodol i ymgynghoriad gyda chynrychiolwyr undeb cydnabyddedig.

28.3. Wrth benderfynu dyraniad a gwerth taliadau CAD 3, rhoddir ystyriaeth briodol i sicrhau cysondeb, tegwch, eglurder a gwerth am arian. Ni fydd taliadau CAD3 yn cael eu defnyddio i gymryd lle neu gyfyngu datblygiad cyflog athrawon ar y prif amrediad cyflog neu'r amrediad cyflog uwch neu ymarferydd blaenllaw**.** Nid yw taliadau CAD 3 yn amodol i'r egwyddor pro-rata.

## 29. Lwfans Anghenion Addysgol Arbennig

29.1. Mae'r Corff Llywodraethol yn nodi, o dan ddarpariaeth y DTAAY, y bydd lwfans o unrhyw swm sy'n dod o fewn yr amrediad AAA penodol rhwng **£2,149 a £4,242** yn daladwy i athro dosbarth sy'n cyrraedd y meini prawf canlynol:

29.2. **Y Meini Prawf**

- Unrhyw swydd AAA sydd angen cymhwyster AAA gorfodol;
- Mewn ysgol arbennig;
- Sy'n addysgu disgyblion mewn un neu fwy o ddosbarthiadau arbennig dynodedig neu unedau mewn ysgol neu, yn achos athro digyswllt, mewn uned neu wasanaeth awdurdod lleol;
- Mewn unrhyw le sydd heb ei ddynodi (gan gynnwys unrhyw UCD) sy'n debyg i ddosbarth neu uned arbennig ddynodedig, ble mae'r swydd:
  (i) yn cynnwys elfen sylweddol o weithio'n uniongyrchol gyda phlant gydag anghenion addysgol arbennig;
  (ii) angen defnyddio sgiliau proffesiynol athro a barn wrth addysgu plant gydag anghenion addysgol arbennig; a
  (iii) chyda lefel uwch o gysylltiad gydag addysgu plant ag anghenion addysgol arbennig nag sy'n anghenraid arferol i athrawon trwy'r ysgol neu uned neu wasanaeth.

29.3. **Asesu Gwerthoedd Lwfans Priodol**

29.3.1. Bydd strwythur yr ysgol ar gyfer darpariaeth AAA yn nodi'r rhesymeg dros benderfyniadau a wnaed ynghylch gwerthoedd y lwfans priodol.

29.3.2. Bydd gwerth y lwfansau'n seiliedig ar un ai:

- angen am unrhyw gymwysterau gorfodol
- cymwysterau ac arbenigedd yr athro yn berthnasol i'r swydd, a
- galwadau perthnasol y swydd.

29.3.3. Mae gwerthoedd lwfansau AAA yr ysgol hon wedi'u nodi isod.

(a) Bydd y corff perthnasol yn dyrannu 'Lwfans AAA' o £2,149 i bob athro sy'n bodloni'r meini prawf statudol fel yr amlinellwyd uchod.
(b) Bydd y corff perthnasol yn dyrannu 'Lwfans AAA Uwch' o £4,242 i athro sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant ag anghenion addysgol arbennig ble mae angen cymhwyster gorfodol a/neu sydd â phrofiad sylweddol perthnasol.

29.3.4. Sylwer na ddylai cymhwyster CAAA/SENCO (y Wobr Genedlaethol i Gydlynu Addysg Arbennig) gael ei ystyried fel un o'r cymwysterau gorfodol sy'n arwain at dalu lwfans AAA. Nid yw rôl y CAAA, fel cyfrifoldeb rheoli, yn un sy'n cyfarfod a gofynion y meini prawf lwfans AAA ond yn hytrach mae'n cael ei ystyried yn fwy priodol trwy daliad CAD.

30. **Athrawon Rhan Amser**

30.1. Mae athrawon a gyflogir yn barhaus yn yr ysgol ond sy'n gweithio llai nac wythnos lawn yn cael eu hystyried yn rhan amser. Bydd y Corff Llywodraethol yn rhoi datganiad ysgrifenedig i'r athrawon hyn yn nodi eu hoblygiadau amser a'r dull safonol i benderfynu eu cyflog, yn amodol i ddarpariaeth y trefniadau cyflog statudol

a thrwy gymharu ag amserlen addysgu'r ysgol ar gyfer athro llawn amser mewn swydd debyg.

30.2. HMS - Ni fydd angen i athrawon a gyflogir yn rhan amser weithio neu fod yn bresennol ar ddyddiau pan nad oes disgyblion yn yr ysgol nac ar ddyddiau nad yw'r athro yn arfer eu gweithio.

30.3 Yn unol â darpariaeth DTAAY, bydd unrhyw lwfans sy'n daladwy i athro rhan amser yn cael ei benderfynu'n unol ag egwyddor pro rata ac eithrio'r taliadau CAD 3.

31. **Athrawon Byr Rybudd/Llanw**

31.1. Bydd cyflog athrawon sy'n gweithio o ddydd i ddydd neu ar sail byr rybudd arall yn cael ei benderfynu'n unol â threfniadau cyflog statudol yn yr un modd ag athrawon eraill. Bydd athrawon sy'n cael eu talu'n ddyddiol yn cael eu cyflog wedi'i gyfrifo fel swm blynyddol i gychwyn; bydd wedyn yn cael ei rannu gyda 195 a'i luosi gan nifer y dyddiau a weithiwyd.

31.2. Mae athrawon sy'n gweithio llai na diwrnod llawn yn cael eu talu wrth yr awr a bydd eu cyflog hefyd wedi'i gyfrifo fel swm blynyddol wedi'i rannu gyda 195, a'i rannu gan y ffactor priodol a benderfynwyd gan yr ALl i gyrraedd y raddfa fesul awr.

32. **Staff Cefnogi Ysgol**

32.1. **Nodyn cyffredinol – Statws Sengl a Threfniadau Cyflog a Graddio**

- Mae'r Cytundeb Statws Sengl a weithredwyd yn Ebrill 1999 yn Gytundeb Cenedlaethol, ac mae holl agweddau'n rhwymo staff y 'Llyfr Gwyrdd'. Pwrpas y cytundeb oedd cychwyn proses harmoneiddio cyflog ac amodau'r holl staff a gyflogwyd dan y 'Llyfr Gwyrdd'.

- Ar ôl cyflwyno'r Cytundeb Statws Sengl, cwblhaodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'r Adolygiad Cyflog a Graddio gan weithredu fel cyflogwr llawer o staff mewn ysgolion ac ar ran ysgolion cymorthedig gwirfoddol a Sylfaen sy'n cyflogi eu staff ysgol eu hunain. Roedd yr adolygiad yn ymdrin â harmoneiddio a materion cydraddoldeb o fewn cyflog ac amodau staff y 'Llyfr Gwyrdd'.

- Cymeradwywyd Telerau ac Amodau'r Statws Sengl newydd a'r Strwythur Graddio Cyflog newydd gan y Cyngor a'r undebau llafur lleol ac fe'u gweithredwyd ar 1 Rhagfyr 2010.

- Yn unol â Rheoliadau (Cymru) Staffio Ysgolion a Gynhelir, mae gan Gyrff Llywodraethol gyfrifoldeb penodol i sicrhau bod cyflog a graddau staff a gyflogir mewn ysgolion yn aros o fewn fframwaith cyflog yr Awdurdod Lleol. Mae'r fframwaith a argymhellwyd ar gyfer pob ysgol Awdurdod Lleol a gynhelir yng Nghonwy wedi'i sefydlu gan y Strwythur Cyflog a Graddio newydd y cyfeiriwyd ato uchod.

- Mae'r materion yn y cytundeb yn cynnwys gwerthuso pob swydd gan ddefnyddio cynllun gwerthuso swydd gytunedig a strwythur cyflog newydd.

32.2. **Cyflogau Staff Cefnogi Ysgol**

32.2.1. Wrth benodi aelod o staff cefnogi, bydd y swydd ddisgrifiad a benderfynwyd ar gyfer
y swydd mae'r gweithiwr yn mynd i gael ei benodi iddi yn cael ei gwerthuso yn unol â'r cynllun a gymeradwywyd gan y Cyngor. Ceisir cyngor gan yr ALI.

32.2.2. Bydd y pennaeth, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Llywodraethwyr, yn penderfynu'r pwynt priodol ar y raddfa a werthuswyd gan ystyried:

i. cymwysterau perthnasol a/neu brofiad
ii. anghenion recriwtio/cadw'r ysgol parthed y swydd.

32.2.3. Bydd penderfyniad y pennaeth yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor cyflog.

32.2.4. Os bydd y pennaeth ar unrhyw adeg, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Llywodraethwyr, yn ystyried y gofynnir i aelod o staff cefnogi ymgymryd â neu sydd wedi ymgymryd â mwy o gyfrifoldeb ar sail barhaol neu dros dro, bydd ef/hi yn cyfeirio'r swydd ddisgrifiad, gyda'r cyfrifoldebau newydd, i gael eu gwerthuso. Os bydd y gwerthusiad yn darparu cyflog uwch, bydd y cyflog yn cael ei dalu i ddeiliad y swydd o ddyddiad a benderfynwyd gan y pennaeth, fel arfer y dyddiad mae'r cyfrifoldebau cynyddol wedi dechrau, ac yn achos codiad dros dro mewn cyfrifoldeb, y dyddiad mae'r cyflog newydd i gael ei dalu. Hysbysir y pwyllgor cyflog am lefel y cyflog newydd.

32.2.5. Wrth wneud asesiad blynyddol o gyflogau athrawon, fe all y pennaeth wneud argymhelliad i'r pwyllgor cyflog parthed cyflog unrhyw aelod o'r staff cefnogi.

32.2.6. Os bydd unrhyw aelod o'r staff cefnogi yn dymuno apelio yn erbyn ei lefel cyflog, fe all ef/hi ofyn am ail asesu'r swydd ddisgrifiad. Os bydd aelod o staff cefnogi yn dymuno apelio yn erbyn penderfyniad y pwyllgor priodol yna bydd ef / hi yn cyflwyno datganiad ysgrifenedig o apêl. Bydd yr apêl yn cael ei glywed gan y Panel Apêl.

33. **Dyletswyddau Preswyl**

Bydd y pwyllgor cyflog yn cymryd ystyriaeth o'r hyn a benderfynwyd gan Gydgyngor Cenedlaethol i Athrawon Mewn Sefydliadau Preswyl wrth benderfynu cyflog ar gyfer dyletswyddau preswyl.

34. **Tâl Ychwanegol**

34.1. Yn unol â darpariaeth DTAAY ac Adran 3 y canllaw, bydd y Corff Llywodraethol yn gwneud taliadau fel y maent yn ei weld orau i athro, gan gynnwys pennaeth parthed:

- parhau datblygiad proffesiynol a wnaed y tu allan i'r diwrnod ysgol;
- gweithgareddau'n ymwneud â darparu hyfforddiant athro dechreuol fel rhan o drefniadau arferol yr ysgol;

- cymryd rhan mewn gweithgaredd dysgu tu allan i oriau ysgol a gytunwyd rhwng yr athro neu, yn achos y pennaeth, rhwng y pennaeth a'r Corff Llywodraethol;
- cyfrifoldebau a gweithgareddau ychwanegol oherwydd neu ynghylch darpariaeth gwasanaethau gan y pennaeth yn ymwneud â chodi safonau addysgol mewn un ysgol neu fwy.

34.2. Bydd y pwyllgor cyflog yn gwneud taliadau ychwanegol i athrawon yn unol â darpariaeth paragraff 40 DTAAY pan fo'n cael ei gynghori gan y pennaeth.

34.3. Bydd tâl yn cael ei gyfrifo ar sail ddyddiol o 1/195 o gyflog yr athro. Ble'n briodol, ac ar ôl ystyriaeth y Pwyllgor Cyflog, gall taliadau gael eu gwneud ar lefel uwch i adlewyrchu cyfrifoldeb a maint yr ymrwymiad.

34.4. Yn unol â darpariaeth y DTAAY, bydd y Corff Llywodraethol yn gwneud taliadau ychwanegol i bob athro (gan gynnwys y pennaeth) sy'n cytuno i gael eu cyfarwyddo i ymgymryd â dyletswyddau o'r fath.

34.5. Mae'r Corff Llywodraethol yn cydnabod bod gweithgareddau o'r fath yn gwbl wirfoddol a bydd ymrwymiadau rhai athrawon yn ei gwneud yn anodd iddynt ymgymryd â'r fath ddyletswyddau. Pan na all athrawon fynychu DPP a drefnwyd y tu allan i'r diwrnod ysgol, bydd yr ysgol yn ymdrechu i gynnig cyfleoedd hyfforddi addas o fewn yr amser a gyfarwyddwyd o fewn ei hymrwymiadau i gyfleoedd cyfartal.

### 35. Taliadau Cymhelliant Recriwtio a Chadw

35.1. Gall y Corff Llywodraethol roi taliadau neu ddarparu cymorth ariannol arall, cefnogaeth neu fanteision fel y bernir yn angenrheidiol i gymell recriwtio athrawon newydd neu gadw athrawon presennol, a chynhelir adolygiad ffurfiol rheolaidd o unrhyw daliadau.

35.2. Bydd y Corff Llywodraethol yn ei gwneud yn glir o'r cychwyn beth yw hyd disgwyliedig unrhyw gymhelliant neu fudd, a'r dyddiad adolygu pryd y gallant gael eu tynnu yn ôl.

35.3 Ni delir unrhyw daliadau o'r fath i'r Pennaeth, dirprwy bennaeth a'r pennaeth cynorthwyol ar wahân i daliadau megis ad-daliadau am gostau tai neu adleoli y bernir eu bod yn rhesymol. Ar gyfer staff o'r fath, rhaid ystyried taliadau eraill recriwtio a chadw wrth bennu'r raddfa gyflog arweinyddiaeth briodol.

### 36. Trefniadau Aberthu Cyflog

Pan fo cyflogwr yn gweithredu trefniadau aberthu cyflog, gall athro gymryd rhan mewn unrhyw drefniant a bydd ei gyflog gros yn cael ei ostwng, yn unol â darpariaeth paragraff 43 y Ddogfen.

### 37. Monitro ac Adolygu'r Polisi

Bydd y Corff Llywodraethol yn adolygu'r polisi hwn yn flynyddol neu ar unrhyw achlysur pan fydd y Pennaeth yn gofyn am ei adolygu a bydd yn ymgynghori'n briodol

gydag undebau llafur cydnabyddedig a staff. Bydd y Corff Llywodraethol yn cadw golwg ar ganlyniad ac effaith y polisi.

## 38. Swyddogaethau a Chyfrifoldebau

Mae’r amrywiol swyddogaethau a chyfrifoldebau mewn perthynas â’r polisi hwn fel y cyfeiriwyd atynt uchod wedi’u nodi yn Atodiad 5.

# Atodiad 1

## 1. TREFN APELIADAU ENGHREIFFTIOL

1.1 Yn ôl Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (“y Ddogfen”) mae’n ofynnol bod gan ysgolion ac awdurdodau lleol bolisi cyflog yn ei le sy’n nodi’r sail ar gyfer pennu cyflog athrawon a’r gweithdrefnau ar gyfer apeliadau.

1.2 Fel rhan o’r broses arfarnu gyffredinol, gwneir argymhelliad cyflog gan yr arfarnwr (y rheolwr llinell fel rheol) ac yna trafodir hynny â’r athro yn y cyfarfod arfarnu cyn ei gyflwyno i Bwyllgor Cyflog yr ysgol neu gorff perthnasol gyda chyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau. Bydd manylion a’r rhesymau dros yr argymhelliad yn cael eu cyflwyno ar ffurf ysgrifenedig i’r athro.

1.3 Yn ystod y cam penodol hwn o’r broses pennu cyflog, os yw’r athro yn dymuno deall yn well sail resymegol yr argymhelliad cyflog neu ddwyn tystiolaeth bellach i sylw’r arfarnwr, dylid rhoi cyfle iddynt wneud hynny cyn i’r argymhelliad cyflog terfynol gael ei ddrafftio i’r datganiad arfarnu. Bydd natur unrhyw afarniad a thrafodaeth cyflog dilynol yn anffurfiol ac felly ni fydd angen cynrychiolaeth (ar y naill ochr na’r llall), ac ni fyddai hynny’n briodol. Ar ddiwedd unrhyw drafodaeth bellach, gellir addasu neu gadw at yr argymhelliad cyflog; bydd y datganiad arfarnu yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu’r drafodaeth.

1.4 Os yw’r athro o’r farn bod yr argymhelliad cyflog terfynol yn llai na’r disgwyl, ac yn dymuno ceisio adolygiad pellach o’r wybodaeth sy’n effeithio ar eu cyflog, efallai y byddant yn dymuno apelio’n ffurfiol yn erbyn y penderfyniad gan ddefnyddio’r Weithdrefn Gwrandawiad Apêl ffurfiol. Rhaid i Wrandawiadau Apêl yn erbyn penderfyniadau cyflog fodloni gofynion datrys anghydfodau cyfraith cyflogaeth (h.y. Rhan 4 o Ddeddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi), 1992) a Chod Ymarfer ACAS.

## 2 GWEITHDREFN GWRANDAWIAD APÊL

Y bwriad yw ymdrin â’r Weithdrefn Apeliadau yn brydlon, yn drylwyr ac yn ddiduedd.

### 2.1 Arweiniad

(i) Pan fo athro yn teimlo bod dyfarniad cyflog yn anghywir neu’n anghyfiawn, gallant apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw, yn enwedig pan fo tystiolaeth newydd i’w hystyried.

(ii) Dylai athrawon / Penaethiaid gyflwyno apêl ysgrifenedig naill i’r Pennaeth neu’r Corff Llywodraethu; dylai eu hapêl gynnwys fanylion digonol o’i sail.

(iii) Dylid gwrando ar apeliadau heb oedi afresymol ac ar ddyddiad, amser ac mewn lleoliad y cytunwyd arno.

(iv) Mae gan weithwyr cyflogedig hawl statudol i ddod â chydymaith, a all fod naill ai’n gydweithiwr neu’n gynrychiolydd undeb llafur, ar unrhyw adeg yn ystod gwrandawiad apêl.

### 2.2 Camau Gweithdrefn Apelio: Cam Anffurfiol

2.2.1. Fel rhan o’r broses penderfynu cyflog, bydd y rheolwr llinell (“darparwr yr argymhelliad”) yn gwneud argymhelliad i’r “gwneuthurwr penderfyniad” (y

person/au neu'r pwyllgor sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r argymhelliad cyflog), a gefnogir gan dystiolaeth asesu berthnasol. Wrth benderfynu ar gyflog athro, bydd y "gwneuthurwr penderfyniad" yn ysgrifennu at yr athro, gan roi gwybod iddynt am y penderfyniad cyflog a'r rhesymau dros hynny a chan gadarnhau, ar yr un pryd, eu hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i'r "gwneuthurwr penderfyniad".

2.2.2. Os bydd yr athro yn dymuno apelio ynghylch y penderfyniad, rhaid ei wneud mewn ysgrifen at y "gwneuthurwr penderfyniad", fel arfer o fewn 10 diwrnod gwaith ysgol neu o fewn cyfnod amgen a gytunwyd gan y ddwy ochr. Rhaid i'r apêl gynnwys datganiad manwl o sail yr apêl. Os bydd apêl ddechreuol yn cael ei wneud, mae'n rhaid i'r "gwneuthurwr penderfyniad" drefnu i gyfarfod yr athro i glywed ei sylwadau. Dylid gwahodd "darparwr yr argymhelliad" i'r cyfarfod hefyd, i egluro sail yr argymhelliad gwreiddiol.

2.2.3. Bydd y "gwneuthurwr penderfyniad" yn ailystyried y penderfyniad yn breifat ac yn ysgrifennu at yr athro yn ei hysbysu o ganlyniad y cyfweliad ac o hawl yr athro i apelio at y Corff Llywodraethol. Os bydd yr athro yn dymuno gweithredu ei hawl apelio, mae'n rhaid iddynt ysgrifennu at Glerc y Corff Llywodraethol ar y cyfle cynharaf ac fel arfer o fewn 10 diwrnod gwaith ysgol, gan gynnwys datganiad o sail yr apêl a digon o fanylion o'r ffeithiau y byddant yn dibynnu arnynt.

2.2.4. Bydd hyn yn cychwyn **Cam Ffurfiol** y Weithdrefn Apelio, pan fydd Clerc y Pwyllgor Llywodraethol yn galw cyfarfod o'r pwyllgor apêl ar y cyfle cynharaf ac fel arfer dim hwyrach nag 20 diwrnod ysgol o'r dyddiad pan dderbyniwyd yr apêl ysgrifenedig. Dylai'r pwyllgor apêl gynnwys tri llywodraethwr o leiaf, ac ni ddylai'r un ohonynt gael eu cyflogi yn yr ysgol neu fod wedi ymwneud yn flaenorol â'r drefn penderfynu cyflog perthnasol.

## 2.3 Camau Gweithdrefn Apelio: Cam Ffurfiol

Bydd y weithdrefn ar gyfer cynnal cyfarfodydd ffurfiol fel a ganlyn:

### 2.3.1 Cyfweliadau

Bydd y Cadeirydd yn cyflwyno pawb ac yn esbonio beth yw eu rôl:

- hunan fel Cadeirydd
- aelodau eraill o'r panel
- gweithiwr cyflogedig
- cynrychiolydd y gweithiwr cyflogedig
- unrhyw dystion ar gyfer ochr y gweithiwr cyflogedig
- cynrychiolydd y rheolwyr a fydd yn datgan achos y rheolwyr
- unrhyw dystion ar gyfer ochr y rheolwyr
- person a fydd yn gweithredu fel clerc y cyfarfod
- cynrychiolydd AD i roi cyngor i'r panel (os yn berthnasol)

Yn mynd dros drefn y cyfarfod:

- Bydd y gweithiwr cyflogedig yn datgan eu hachos
- Cadeirydd yn holi'r gweithiwr cyflogedig/cynrychiolydd y gweithiwr cyflogedig
- Cadeirydd yn gwahodd y panel i ofyn cwestiynau
- Bydd y rheolwyr yn datgan eu hachos

- Cadeirydd yn holi’r rheolwyr
- Cadeirydd yn gwahodd y panel i ofyn cwestiynau
- Bydd y Cadeirydd yn crynhoi’r ddwy ochr
- Bydd y Cadeirydd yn gohirio’r cyfarfod er mwyn ystyried yr achos

**2.3.2 Achos y gweithiwr cyflogedig**

Gweithiwr cyflogedig/cynrychiolydd yn cyflwyno achos y gweithiwr cyflogedig:

- beth yw’r dystiolaeth sy’n cefnogi eu hachos
- yn cyflwyno unrhyw dystion

Cadeirydd yn gofyn cwestiynau.
Cadeirydd yn agor y drafodaeth i’r panel.

**2.3.3 Achos y rheolwyr**

Cynrycholydd y rheolwyr yn cyflwyno achos y rheolwyr:

- beth yw’r dystiolaeth sy’n cefnogi’r penderfyniad cyflog dadleuol
- yn cyflwyno unrhyw dystion

Cadeirydd yn gofyn cwestiynau.
Cadeirydd yn agor y drafodaeth i’r panel.

**2.3.4 Crynhoi**

Os yw’n briodol, bydd y Cadeirydd yn crynhoi’r pwyntiau allweddol ar y ddwy ochr.

**2.3.5 Diwedd y gwrandawiad**

Cadeirydd yn dod â’r cyfarfod i ben ac yn cynghori’r gweithiwr cyflogedig y caiff ei hysbysu o benderfyniad y panel drwy lythyr o fewn amser penodol.

**2.3.6 Gwneud penderfyniad**

Clerc yn nodi Prif bwyntiau trafodaeth y panel a’u penderfyniad.
Panel yn cael cyngor AD os bydd angen, er mwyn gwneud penderfyniad hyddysg.

**2.3.7 Rhoi gwybod am y penderfyniad**

Hysbysir y gweithiwr cyflogedig am y penderfyniad.
Penderfyniad a’r rheswm dros y penderfyniad yn cael ei gadarnhau drwy lythyr.

.

**Atodiad 2**

**MEINI PRAWF SYMUD YMLAEN AR YR AMREDIAD CYFLOG UWCH**

1. **Nodweddion proffesiynol**

1.1 Cyfrannu'n sylweddol, ble'n briodol, i weithredu polisïau ac ymarfer yn y gweithle a hyrwyddo cydgyfrifoldeb am eu gweithredu.

2. **Gwybodaeth a dealltwriaeth broffesiynol**

2.1 Gwybodaeth a dealltwriaeth helaeth o sut i ddefnyddio ac addasu amrywiaeth o strategau addysgu, dysgu a rheoli ymddygiad, gan gynnwys sut i bersonoli dysgu i ddarparu cyfleoedd i bob disgybl gyflawni ei botensial.

2.2 Gwybodaeth helaeth a dysgedig o anghenion asesu a threfniadau ar gyfer y pynciau/meysydd cwricwlwm maent yn ei addysgu, gan gynnwys rhai sy'n ymwneud ag arholiadau a chymwysterau cyhoeddus.

2.3 Gwybodaeth a dealltwriaeth gyfredol o'r gwahanol fath o gymwysterau a'u manylebau a'u haddasrwydd i gyfarfod anghenion y dysgwr.

2.4 Gyda mwy o wybodaeth a dealltwriaeth ddatblygedig o'u pynciau/meysydd cwricwlwm ac addysgeg cysylltiedig gan gynnwys sut mae dysgu'n datblygu o'u mewn.

2.5 Digon o wybodaeth a phrofiad dwfn i allu rhoi cyngor ar ddatblygiad a lles plant a phobl ifanc.

3. **Sgiliau proffesiynol**

3.1 Bod yn hyblyg, creadigol a medrus i gynllunio dilyniant dysgu o fewn ac ar draws gwersi sy'n effeithiol ac yn cyfateb yn gyson ag amcanion ac anghenion dysgwyr gan integreiddio datblygiadau diweddar, gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â gwybodaeth pwnc / cwricwlwm.

3.2 Gyda sgiliau addysgu sy'n arwain at ddysgwyr yn cyflawni'n dda mewn perthynas â chyrhaeddiad blaenorol, gan wneud cynnydd da, cystal â, neu'n well na, dysgwyr tebyg yn genedlaethol.

3.3 Hyrwyddo cydweithio a gweithio'n effeithiol fel aelod o dîm.

3.4 Cyfrannu i ddatblygiad proffesiynol cydweithwyr trwy hyfforddi a mentora, dangos ymarfer effeithiol, a darparu cyngor ac adborth.

**Atodiad 4**

**FFURFLEN GAIS AMREDIAD CYFLOG UWCH**

Manylion yr athro:

Enw:

Swydd:

RhP / Manylion gwerthusiad:

Blynyddoedd a gynhwyswyd gan ddatganiadau cynllunio / adolygu:

Ysgolion a gynhwyswyd gan ddatganiadau cynllunio / adolygu:

Datganiad:

Rwy’n cadarnhau ar ddyddiad y cais am asesiad i groesi’r trothwy fy mod yn cyfarfod y meini prawf hawl ac rwy’n cyflwyno datganiadau rheoli perfformiad / gwerthuso cynllunio ac adolygu am y cyfnod priodol.

Llofnod yr ymgeisydd: ___________________________________ Dyddiad: ____________

**Atodiad 5**

**SWYDDOGAETHAU A CHYFRIFOLDEBAU**

**Sefydlu'r polisi**

Mae'r Pwyllgor Cyflog yn gyfrifol am:

- sefydlu'r polisi, mewn ymgynghoriad â'r pennaeth, staff a chynrychiolwyr undebau llafur, a'i gyflwyno i'r Corff Llywodraethol i'w gymeradwyo.

Mae'r Corff Llywodraethol yn gyfrifol am:

- gymeradwyo'r polisi'n ffurfiol.

**Monitro ac adolygu'r polisi**

Mae'r Pwyllgor Cyflog yn gyfrifol am:

- adolygu'r polisi'n flynyddol, mewn ymgynghoriad â'r pennaeth, staff a chynrychiolwyr undebau, a'i gyflwyno i'r Corff Llywodraethol i'w gymeradwyo.

Mae'r Corff Llywodraethol yn gyfrifol am:

- ystyried adroddiad blynyddol, gan gynnwys gwybodaeth ystadegol, ar benderfyniadau a gymerwyd yn unol â thelerau'r polisi.

**Gweithredu'r polisi**

Mae'r pennaeth yn gyfrifol am:

- sicrhau bod argymhellion cyflog y dirprwy bennaeth a phenaeth(iaid) cynorthwyol, athrawon dosbarth a staff cefnogi yn cael eu gwneud a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Cyflog yn unol â thelerau'r polisi;
- cynghori'r Pwyllgor Cyflog ynghylch penderfyniadau; a
- sicrhau bod staff yn cael gwybod am benderfyniad y Pwyllgor Cyflog a'u hawl i apelio.

Mae'r Pwyllgor Cyflog yn gyfrifol am:

- wneud penderfyniadau ynghylch cyflog y dirprwy a phenaeth(iaid) cynorthwyol, athrawon dosbarth a staff cefnogi ar ôl ystyried argymhellion adolygwyr cyflog a chyngor y pennaeth;
- gwneud penderfyniadau ynghylch cyflog y pennaeth ar ôl ystyried argymhellion y llywodraethwyr sy'n gyfrifol am adolygu perfformiad y pennaeth;
- cyflwyno adroddiadau ar y penderfyniadau hyn i'r Corff Llywodraethol; a
- sicrhau bod y pennaeth yn cael gwybod am benderfyniad y Pwyllgor Cyflog a'r hawl i apelio.

Mae Pwyllgor Apêl y Corff Llywodraethol yn gyfrifol am:

- wneud penderfyniadau ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Pwyllgor Cyflog yn unol â thelerau trefn apêl y polisi.

**Atodiad 6**

## Graddfa Gyflog Arweinyddiaeth a Grwpiau Pennaeth

| Pwynt Cyflog | 1 Medi 2018 £yf | Grŵp |
|---|---|---|
| L1 | 39,965 | |
| L2 | 40,966 | |
| L3 | 41,989 | |
| L4 | 43,034 | |
| L5 | 44,106 | |
| L6 | 45,213 | |
| L7 | 46,430 | |
| L8 | 47,501 | |
| L9 | 48,687 | |
| L10 | 49,937 | |
| L11 | 51,234 | |
| L12 | 52,414 | |
| L13 | 53,724 | |
| L14 | 55,064 | |
| L15 | 56,434 | |
| L16 | 57,934 | |
| L17 | 59,265 | |
| L18 | 60,755 | |
| L19 | 62,262 | |
| L20 | 63,806 | |
| L21 | 65,384 | |
| L22 | 67,008 | |
| L23 | 68,667 | |
| L24 | 70,370 | |
| L25 | 72,119 | |
| L26 | 73,903 | |
| L27 | 75,735 | |
| L28 | 77,613 | |
| L29 | 79,535 | |
| L30 | 81,515 | |
| L31 | 83,528 | |
| L32 | 85,605 | |
| L33 | 87,732 | |
| L34 | 89,900 | |
| L35 | 92,135 | |
| L36 | 94,416 | |
| L37 | 96,763 | |
| L38 | 99,158 | |
| L39 | 101,574 | |
| L40 | 104,109 | |
| L41 | 106,709 | |
| L42 | 109,383 | |
| L43 | 111,007 | |

